



## **ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU**

## **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

### **Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Awdurdodau Tân) (Cymru) 2004**

Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tân yng Nghymru wneud cynlluniau ar gyfer talu lwfans sylfaenol a lwfans cyfrifoldebau arbennig i'w galw yn "lwfans awdurdod tân" ac yn "lwfans cadeirydd awdurdod tân" ac yn "lwfans is-gadeirydd awdurdod tân", yn y drefn honno, i'w Haelodau.

Gwnaed y Rheoliadau o dan y Weithdrefn weithredol ar 28 Medi 2004 a daethant i rym ar 29 Medi 2004.

#### **Rheol Sefydlog 11.7**

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi i'w hadrodd o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae'r pwerau galluogi y cyfeiriwyd atynt yn cynnwys rheoliad 18(1) Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ("Deddf 1989") sy'n caniatáu gwneud rheoliadau ar gyfer talu lwfansau sylfaenol a lwfansau cyfrifoldebau arbennig i aelodau awdurdodau perthnasol. Mae adran 18(5) yn nodi y gall "awdurdod perthnasol" gynnwys awdurdod tân. Mae Rheoliadau 13 ac 14 yn awgrymu cynnig talu addasiad blynyddol i swm y lwfansau gofal. Mae Adran 18(2A) Deddf 1989 yn caniatáu i gynlluniau a wnaed gan gynghorau dosbarth, cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol neu gynghorau bwrdeistref Llundain gynnwys darpariaeth i dalu lwfansau gofal. O ganlyniad, caiff adran 18(2A) ei ddrafftio mewn telerau

culach nag adran 18(1) ac nid yw'n caniatáu talu lwfansau gofal i'r holl awdurdodau perthnasol ac o ganlyniad, ni ellir dibynnu ar hynny i ganiatáu gwneud rheoliad 13 ar ei ffurf bresennol. Fodd bynnag, mae adran 100(1)(d) Deddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000") yn caniatáu gwneud rheoliadau i ad-dalu costau o'r fath y bydd aelodau awdurdodau perthnasol yn eu gwario a gall fod yn berthnasol i ad-dalu costau gofal plant a dibynyddion. Fel y mae rheoliad 13 wedi'i ddrafftio, ymddengys ei fod y tu hwnt i gwmpas y pŵer a drosglwyddir gan adran 100(1)(d) gan ei fod yn cyfeirio at lwfansau gofal yn hytrach nag at ad-dalu costau. Fodd bynnag, gallai diben y rheoliad fod wedi'i gyflawni drwy ddiwygio'r geiriad i gyfeirio at ad-dalu costau yn hytrach na thalu lwfans gofal. Ni fyddai angen Rheoliad 14 sy'n darparu addasiad blynyddol i lwfansau gofal petai'r dull hwn o weithio wedi'i fabwysiadu. Ystyrir y dylid cywiro'r pwyntiau hyn cyn gynted ag sy'n bosibl.

Mae'r mân wallau drafftio canlynol wedi'u nodi hefyd.

Mae anghysondeb rhwng testun Cymraeg a Saesneg rheoliad 8(4)(a) a (b). Mae Rheoliad 8(4) yn nodi uchafswm y lwfans sy'n daladwy yn ystod y blynyddoedd sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2006 neu ar ôl hynny ac yn nodi na ddylai, yn amodol ar yr hyn a ddarperir ynddo, fod yn fwy na'r swm sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn flaenorol. O ganlyniad, nid oes angen y geiriau "ar gyfer y flwyddyn sy'n gorffen ar 31 Mawrth 2006" (yr ymddengys eu bod wedi'u mewnfario ar gam o reoliad 8(3)(a) a (b)) a dylai'r testun Cymraeg ddilyn patrwm rheoliad 7(4).

Mae rheoliadau 8(6), 10(a), 13(7) ac 16(a) yn cyfeirio at ddal lwfansau yn ôl neu eu hadfer os caiff aelod ei wahardd neu ei wahardd yn rhannol. Mae testun Saesneg y rheoliadau hyn yn cyfeirio at "responsibilities or duties" aelodau; mae'r testun Cymraeg cyfatebol yn cyfeirio at "cyfrifoldebau a'i ddyletswyddau" sy'n cyfieithu'n "responsibilities and duties". Gan fod y Rheoliadau'n cyfeirio at waharddiad llawn neu rannol, tybir mai'r testun Saesneg sy'n gywir; ymddengys yn rhesymegol y gellid gwahardd yn rhannol o'r holl gyfrifoldebau a'r dyletswyddau fel y cesglir o'r testun Cymraeg. Dylid diwygio'r testun Cymraeg i gyfateb â'r testun Saesneg.

Rhaid diwygio testun Cymraeg rheoliad 19(1); dylid mewnosod y gair "tân" ar ôl "bob awdurdod".

Byddai modd newid y camgymeriadau drafftio bychain hyn drwy Femorandwm Cywiriadau. Gan fod y Rheoliadau wedi'u gwneud, dylid eu cywiro pan ddaw cyfle.

Roedd y Pwyllgor o'r farn (yn ei gyfarfod ar 12 Hydref 2004) y dylai'r Gweinidog gael y cyfle i roi tystiolaeth gerbron y Pwyllgor ynglyn â'r materion uchod ac yn arbennig mewn perthynas â'r materion hynny sy'n ymwneud â rheoliadau 13 a 14. Mewn ymateb i wahoddiad ysgrifenedig gan y Cadeirydd i wneud hynny, derbyniwyd ateb ysgrifenedig gan y Gweinidog. Mewn perthynas â'r materion a nodwyd sy'n ymwneud â rheoliadau 13 a 14, ymatebodd y Gweinidog fel a ganlyn:

The Report provides that regulation 13 is outside the scope of section 100(1)(d) of the Local Government Act 2000 ("the 2000 Act"). Regulation 13 provides that fire authorities may pay what has been termed "care allowance" to the fire authority members. It is payable in respect of the expenses of

arranging for the care of children or dependants which are necessarily incurred by a member in carrying out his or her fire authority duties.

Section 100(1)(d) of the 2000 Act states that the Assembly may, by regulation, "make *provision with respect to the reimbursement of expenses incurred by members of such relevant authorities as may be prescribed*". The Regulations prescribe Fire Authorities as "relevant authorities" for the purposes of section 100(1)(d) of the 2000 Act. His [sic] is referred to in regulation 3.

The Committee is of the view that the wording of regulation 13 should have made reference to "reimbursement of expenses" rather than "payment of care allowance" and that the use of the latter, instead of the former, in regulation 13 means that regulation 13 is outside the scope of the enabling legislation. It is accepted that the nomenclature used in regulation 13 does not mirror precisely that in section 100(!)(d) of the 2000 Act. However, the way in which the regulation 13 will operate in practice, particularly in light of regulation 17(2) (which refers to fire authority members making a claim for care allowance), is that a payment by a fire authority in respect of expenses incurred by a member for child or dependant care will amount to reimbursement of those expenses. The payment to be made by a fire authority will relate to "*such expenses of arranging for the care of children or dependants as are necessarily incurred*" (regulation 13(1)). Subsequent to a claim for 'care allowance' by a fire authority member, the payment that the member will receive will relate to those expenses incurred by that member. As such, the payment that the member will receive is that which he or she expended. In effect this is reimbursement. Payment cannot be made by the fire authority in respect of child or dependant care expenses that the member in question has not incurred or has not necessarily incurred.

It appears to me that there is an argument that regulation 13 falls within the scope of section 100(!)(d) of the 2000 Act.

For the avoidance of doubt, the amounts referred to in regulations 13(3) and (4) do not represent fixed amounts. They represent the maximum amounts that a fire authority may claim in a year in respect of expenses necessarily incurred on child or dependant care. In other words, these provisions set a 'ceiling' as to the amount that a fire authority may pay (for expenses incurred) to a member in a year. A member will not receive payment in respect of expenditure which, although necessarily incurred, means that he or she exceeds the 'ceiling' for a particular year.

Even if regulation 13 expressly referred to "reimbursement of expenses", regulation 14 would still have a function in that it would provide for the raising of the above-mentioned 'ceiling'.

O ran y mân wallau drafftio a nodwyd uchod, roedd y Gweinidog yn derbyn bod angen eu cywiro a dywedodd y byddai'n gofyn i swyddogion ystyried a allai'r cyfryw gywiriadau gael eu gwneud yn rhan o ddeddfwriaeth sydd ar fin ymddangos a, beth bynnag, ar y cyfle cyntaf posibl.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i ymateb y Gweinidog ond ni fu unrhyw newid yn ei farn y dylid gwahodd y Cynulliad i dalu sylw arbennig i'r Rheoliadau hyn o dan Reol Sefydlog 11.7(v).

## **Sylwadau**

Nodir bod y diffiniad o "awdurdod tân" yn cynnwys awdurdod tân a sefydlwyd yn unol â chynllun cyfun o dan Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947 ac awdurdod tân ac achub a sefydlwyd o dan adran 2 Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004. Nid yw'r ail ddarpariaeth wedi dod i rym yng Nghymru eto ac o ganlyniad, ni all y rhan hon o'r diffiniad gael unrhyw effaith nes bod adran 2 yn cychwyn. Deellir mai'r bwriad yw dechrau adran 2 mewn cysylltiad â Chymru o 10 Tachwedd 2004 ymlaen.

Rhoddyd gwybod i'r cyfreithiwr drafftio am bwyntiau yn ymwneud â fformadu.

## **Dai Lloyd AC**

Cadeirydd Dros Dro y Pwyllgor Deddfau

## **30 Tachwedd 2004**